**Gwybodaeth i Gleifion**

# Rhannu Gwybodaeth gydag Ymarferwyr Gofal Iechyd nad sy'n gyflogedig gan y GIG

## Y Gwasanaeth Ffisiotherapi

Diolch am roi gwybod i ni eich bod wedi derbyn neu'n ystyried chwilio am driniaeth ychwanegol ar yr un pryd ag yr ydych chi'n derbyn ffisiotherapi. Mewn rhai achosion, ystyrir ei bod yn briodol parhau triniaeth gyda'r ddau ymarferydd naill ai ar gyfer yr un cyflwr neu ar gyfer cyflyrau a allai affeithio mewn rhyw fodd ar ei gilydd.

Yn dilyn trafodaeth gyda chi, mae'n bosibl y bydd y ffisiotherapydd wedi amlinellu pwysigrwydd sicrhau cyfathrebu priodol rhyngddyn nhw a'r Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd eraill er mwyn sicrhau gofal priodol a pharhaus diogel. Pan fydd hyn wedi'i nodi, bydd y ffisiotherapydd yn gofyn am eich cydsyniad pendant cyn cysylltu gyda'r ymarferydd arall i drafod unrhyw fanylion neu opsiynau triniaeth. Bydd yn rhaid i chi hefyd ddweud wrth yr ymarferydd arall eich bod yn hapus iddyn nhw drafod eich manylion gyda'r ffisiotherapydd.

Mae'n bwysig eich bod yn gwerthfawrogi os byddwch chi'n gwrthod cydsynio i rannu gwybodaeth bersonol, y gall y Bwrdd Iechyd atal eich triniaeth ffisiotherapi.

Os byddwch chi'n penderfynu cael triniaeth yn rhywle arall, rydyn ni'n eich cynghori i wirio bod yr ymarferydd o'ch dewis wedi cymhwyso'n gyflawn ac wedi cofrestru gyda'i gyngor neu ei gorff rheoleiddio. Rydyn ni wedi darparu rhai gwefannau isod i'ch helpu gyda hyn.

Dylai pob ffisiotherapydd (GIG a Phreifat) fod wedi cofrestru gyda Chyngor Gweithwyr Proffesiynol Iechyd a Gofal. Mae'n bosibl y byddwch chi am wirio bod eich ffisiotherapydd ar y gofrestr yn:- http://www.hcpc-uk.org

Dylai cìropractegwyr fod wedi cofrestru gyda'r Cyngor Ciropracteg Cyffredinol. I wirio eu bod wedi cofrestru, gallwch weld y gofrestr yn:- http://www.gcc-uk.org

Dylai osteopathiaid fod wedi cofrestru gyda'r Cyngor Osteopatheg Cyffredinol. I wirio eu bod wedi cofrestru gallwch weld y gofrestr yn:- http://www.osteopathy.org.uk/

I gael gwybodaeth am therapyddion Cyflenwol, gallwch ymweld â Chyngor Gofal Iechyd Cyflenwol a Naturiol yn:- http://www.cnhc.org.uk

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English**